

# Y Rhyfel Byd Cyntaf : The First World War

# Gwytherin

## Y Milwyr a Ddaeth Adref • The Soldiers Who Returned

**Joseph Thomas**, Merddyn. Joseph oedd trydydd plentyn Robert a Margaret Thomas, Pant y Foty. Dychwelodd adref o'r rhyfel wedi cael anaf i'w ben-glin gan shrapnel a bu'n cerdded gyda maglau. Colodd ddau fys o'i law chwith hefyd.

**Edward Pierce**, Cornwall Ganol. Roedd Edward yn fab i John a Fanny Pierce, Cornwall Ganol, plwyf Llanfair T.H. Pan oedd yn blentyn bu'n mynychu ysgol Gwytherin.

**John Owen**, Tyddyn Uchaf. Cyhoeddwyd yn 1918 ei fod "yn gorwedd yn glwyfedig mewn ysbytty yn Llundain ar ôl derbyn niweidiau trwm yn Ffrainc. Dioddefodd anafau i'w fraich, ei goes a'i ben."

**Morus Morris**, Pentref. Ymunodd Morus Morris â'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig ychydig wedi dechrau'r rhyfel. Cymerodd ran ym mrwydrau Passendale a'r Somme. Torrodd fynegfys ei law dde ac anafwyd y bys agosaf ato. Cafodd shrapnel yn ei goes dde ac yn ei ben.

**Ifor Morris**, Pen y Bont. Anfonodd lythyr diddorol at gyfaill yn dweud tra oedd yn ymgyrch y Dardanelles, y byddai wedi cael ei glwyfo'n anghueol oni bai am ei oriawr. Niweidiwyd ef yn 1917 ac eto yn 1918.

**Emyr Morris**, Pen y Bont. Adroddwyd ym mis Mehefin 1918 bod "y Preifet Emyr Morris wedi ei glwyfo ar faes yr ymladd."

**Gwyndaf Morris**, Pen y Bont. Cyhoeddwyd iddo yntau hefyd dderbyn archollion tra oedd yn gwneud ei ran yn erbyn y gelyn yng Ngwanwyn 1918.

**David Owen**, Pen y Fron. Ef oedd mab ieuengaf Robert ac Alice Owen, Pen y Fron. Wedi'r rhyfel, priododd David â Catherine Griffiths, Tŷ'n Ddôl.


**Evan Jones**, Bwlch y Gwynt. Ganed ef yn 1895 yn fab i David ac Ann Jones. Daeth y teulu yma o Tŷ Capel, Carmel, ar ôl colli eu mam. Roedd yn frawd i'r John Jones isod.

**John Jones**, Bwlch y Gwynt. Cyhoeddwyd yn 1918: "Gorweddaï y magnelwr (Gunner) John Jones mewn ysbytty yn Ffrainc yn cwyno gan waeledd." Ganed ef yn 1896.

**David Williams**, Pant y Foty.

**Robert Jones**, Tŷ Capel. Cyhoeddwyd yn 1918 ei fod "ers misoedd yn yr ysbytty yn Leith, Y Sgotland, mewn gwaeledd." Mab ydoedd i'r teiliwr John Cledwen ac Elizabeth Jones, Tŷ Capel. Ganed ef tua 1878.

**Morgan Thomas**, Pen y Waen. Ganed Morgan Thomas tua 1880, y pumed o'r saith plentyn a aned i Jôb a Mary Thomas. Er bod Pen y Waen ychydig dros y ffin ym mhlwyf Pandy Tudur, arferai'r teulu fynychu Capel Gwytherin.



Morus Morris



David Wynne Roberts



Hugh Thomas



Un o'r Morrisiaid

**Joseph Thomas**, Merddyn. Joseph was the third child of Robert and Margaret Thomas, Pant y Foty. He returned home from the war after suffering a shrapnel injury to his knee and he used to walk with crutches. He also lost two fingers on his left hand.

**Edward Pierce**, Cornwall Ganol. Edward was the son of John and Fanny Pierce, Cornwall Ganol, in the parish of Llanfair T.H. As a child he attended Gwytherin school.

**John Owen**, Tyddyn Uchaf. It was announced in 1918 that he lay injured in a London hospital after suffering heavy injuries in France. He suffered injuries to his arm, his leg and his head.

**Morus Morris**, Pentref. Morus Morris joined the Royal Welsh Fusiliers soon after the beginning of the war. He took part in the battles of Passendale and the Somme. He broke the index finger of his right hand and injured the finger next to it. He suffered shrapnel to his right leg and to his head.

**Ifor Morris**, Pen y Bont. He sent an interesting letter to a friend saying that he would have been fatally wounded during the Dardanelles campaign were it not for his watch. He was injured in 1917 and again in 1918.

**Emyr Morris**, Pen y Bont. It was reported in June 1918 that Private Emyr Morris had been injured on the field of battle.

**Gwyndaf Morris**, Pen y Bont. It was reported that he too had received injuries whilst playing his part against the enemy in the Spring of 1918.

**David Owen**, Pen y Fron. He was the youngest son of Robert and Alice Owen, Pen y Fron. Following the war David married Catherine Griffiths, Tŷ'n Ddôl.

**Evan Jones**, Bwlch y Gwynt. He was born in 1895, the son of David and Ann Jones. The family came here from Tŷ Capel, Carmel, following the loss of their mother. He was the brother of John Jones below.

**John Jones**, Bwlch y Gwynt. It was reported in 1918: Gunner John Jones lay in a French hospital suffering from illness. He was born in 1896.

**David Williams**, Pant y Foty.

**Robert Jones**, Tŷ Capel. It was reported in 1918 that he had for months been in hospital at Leith, Scotland with an illness. He was the son of John Cledwen, a tailor, and Elizabeth Jones, Tŷ Capel. He was born about 1878.

**Morgan Thomas**, Pen y Waen. Morgan Thomas was born about 1880, the fifth of seven children born to Jôb and Mary Thomas. Although Pen y Waen is just over the boundary in the parish of Pandy Tudur, the family used to attend Gwytherin Chapel.

